

Pwynt Gweithredu 16.2 – Llwybr Coch

Rhagarweiniad

Mae Pwynt Gweithredu 16.2 yn nodi y dylai 'Cyngor Sir y Fflint gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y llwybr coch arfaethedig a chadarnhau ei fod wedi cael ei ddiogelu'n gywir ar y map cynigion'.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Llwybr Coch

Mae'r Cyfarwyddwr Prosiectau, Adran Gludiant Llywodraeth Cymru wedi darparu'r diweddariad canlynol ar 24/08/21:

'Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymateb ond mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog ar gyfer Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi Adolygiad Ffyrdd ar 22 Mehefin 2021. Mae'r Adolygiad Ffyrdd yn ei ddyddiau cynnar ac mae Gweinidogion yn ystyried cwmpas yr adolygiad ac yn ystyried penodi Cadeirydd ac aelodau i'r panel ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl y bydd pob rhaglen a phrosiect ffordd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, oni bai am y rheiny sydd eisoes yn mynd rhagddynt, wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad ffyrdd, felly mae'n debyg y bydd y Llwybr Coch wedi'i gynnwys. Unwaith y bydd y Cadeirydd ac aelodau'r panel wedi cael eu penodi, bydd adroddiad cychwynnol yn cael ei ddarparu i Weinidogion o fewn 3 mis yn amlinellu sut fydd y panel yn ymgymryd â'u tasg ac yn cadarnhau pa gynlluniau ffyrdd fydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad.

Unwaith y byddaf wedi derbyn manylion pellach ar gwmpas a rhaglen yr Adolygiad Ffyrdd, a sut y gallai effeithio ar y Llwybr Coch, byddaf mewn cysylltiad eto."

Llwybr Diogel ar Fapiau Cynigion

Rhoddodd Cyfarwyddwr Prosiect Adran Gludiant Llywodraeth Cymru wybod ar 24/08/21 y 'Dylai'r llwybr a ddiogelir hefyd gynnwys pob cyffordd fel y nodwyd yn y llun TR111'. Bydd hyn yn ymofyn Newid Materion Sy'n Codi, lle diwygir y mapiau cynigion i ddangos y llwybr, gan gynnwys trefniadau cyffyrdd, a ddiffinnir yn y ddogfen gyflwyno [LDP-EBD-TR1.1PC10.1](#).